Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru · Wales

# Gorfodaeth Parcio Ceir

## Cyflwyniad

Mae cyfyngiadau parcio a rhai toriadau traffig eraill (fel gyrru mewn lonydd bysiau) yn cael eu gorfodi yn fwyfwy gan gynghorau. O dan ddarpariaethau ddeddfwriaeth y mae cynghorau yn eu dilyn, mae hawliau apelio/herio statudol i ddyfarnwr annibynnol yn y Tribiwnlys Cosbau Traffig.

## Beth allwn ei wneud

Mae'r amgylchiadau lle efallai y gallwn edrych ar eich cwyn yn eithriadol o gyfyng. Fodd bynnag, efallai fod rhai agweddau cyfyngedig y gallwn edrych arnynt:

- Gallwn edrych ar gŵyn am gamau gweithredu beiliïaid sy'n cael eu cyfarwyddo gan y cyngor i adfer ffi parcio sydd heb ei thalu, ond mae hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol.

## Beth na allwn ei wneud

Ni allwn ymchwilio i fwyafrif y cwynion am orfodaeth barcio. Ni allwn wrthdroi penderfyniad gorfodaeth barcio ac ni allwn atal camau gweithredu gorfodaeth rhag mynd ymlaen. Hefyd, ni allwn ymchwilio fel arfer i gwynion lle y mae hawl apelio statudol i dribiwnlys annibynnol neu i'r llysoedd:

- Os yw'r cyngor yn cyhoeddi hysbysiad tâl cosb (HTC) oherwydd tramgwydd parcio o dan y Ddeddf Rheoli Traffig, gallwch apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig ac felly ni fyddwn fel arfer yn ystyried eich cwyn. Os nad ydych chi wedi defnyddio eich hawl i apelio, byddwn yn ystyried a oes unrhyw resymau eithriadol pam y gall eich cwyn gael ei hystyried. Fodd bynnag, gan fod apêl i'r Tribiwnlys ar gael yn rhad ac am ddim a'i fod wedi'i sefydlu yn benodol i edrych ar apeliadau o'r fath, byddwn yn disgwyl i chi apelio yn y rhan fwyaf o achosion. Os ydych chi eisoes wedi apelio, ni allwn edrych ar y gŵyn o gwbl.
- Os yw'r cyngor yn cyhoeddi HTC o dan y Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd, gallwch chi ei herio yn y llysoedd, ac felly ni fyddwn fel arfer yn ystyried eich cwyn. Os nad ydych chi wedi defnyddio'r hawl hon, byddwn yn ystyried a oes unrhyw resymau eithriadol pam y gall eich cwyn gael ei hystyried. Fodd bynnag, gan fod rhwymedi cyfreithiol amlwg yn bodoli, byddwn yn disgwyl i chi ei ddefnyddio yn y mwyafrif o achosion. Os ydych chi eisoes wedi bod drwy'r broses gyfreithiol, ni allwn edrych ar eich cwyn o gwbl.

Yn ychwanegol:

- Mae llawer o gwmnïau preifat yn cyhoeddi Hysbysiad Tâl Cosb mewn perthynas â thir preifat sy'n swnio'n debyg, er enghraifft, mewn meysydd parcio ac mewn archfarchnad. Hysbysiadau cytundebol yw'r rhain ac nid ydynt yn cael eu cyhoeddi o dan y ddeddfwriaeth a ddefnyddir gan gynghorau. Mater cyfreithiol preifat yw'r rhain rhyngoch chi a'r cwmni a gyhoeddodd yr hysbysiad, fodd bynnag, mae rhai cwmnïau wedi cofrestru i broses apeliadau annibynnol, sy'n cael ei weinyddu gan Apeliadau Parcio ar Dir Preifat (POPLA). Ni allwn gymryd rhan yn yr achosion hyn mewn unrhyw ffordd.

## Gwybodaeth bellach

Efallai yr hoffech ystyried cysylltu â'r sefydliadau canlynol am gyngor neu wybodaeth:

Mae **Tribiwnlys Cosbau Traffig** yn ymdrin ag apeliadau HTCau a gyhoeddwyd o dan y Ddeddf Rheoli Traffig. Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **0800 160 1999** neu ewch i'w gwefan: [www.trafficpenaltytribunal.gov.uk](http://www.trafficpenaltytribunal.gov.uk)

Mae **Cyngor ar Bopeth** yn cynnig cyngor a chymorth yn rhad ac am ddim i aelodau'r cyhoedd a gellir darganfod gwybodaeth benodol ynglŷn â gorfodaeth barcio ar eu

gwefan: https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/Y- Gyfraith-a-Llysoedd/tocynnau-parcio/

Mae **POPLA** yn ystyried apeliadau ar hysbysiadau a gyhoeddwyd gan gwmnïau preifat sy'n aelodau o **Gynllun Gweithredwr Cymeradwy (CGC)** a weinyddir gan Gymdeithas Parcio Prydain (CPP). Gallwch gysylltu â nhw drwy ffonio **03301 596 126** neu ewch i'w gwefan: www.popla.org.uk

## Cysylltu â ni

Os ydych yn ansicr a fyddwn yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni, drwy ffonio 0300 790 0203 neu ebostio holwch@ombwdsmon.cymru

# Hawdd ei Ddarllen

Gorfodaeth Parcio Ceir